

awgrym bod gan y gymdogaeth, ar y cyfan, gydymdeimlad a'r rhieni. Mae'n biti mewn ffordd na welodd rhywun o'r pentref a fu'n cydoesi â nhw yn dda i gronico'r hanes ond mae un peth yn glir: nid oedd rhieni, teidiau na neiniau y to a aned ac a faged yn hanner cyntaf y ganrif hon yn barod i drafod beth a ddigwyddodd. Peth hollol ofer oedd holi.

Ond nid yw amser wedi lladd y chwilyfrydedd ac o dro i dro fe welir cyfeiriadau at yr achos yn y wasg ac ar y cyfryngau. Gwyddys am gyfresi o erthyglau mewn papurau newydd, a chwarter canrif yn ôl cyhoeddwyd cyfrol yn cynnig golwg newydd ar yr hanes. Bu dwy ddrama, y naill yn Saesneg a'r llall yn Gymraeg, yn ymdrin ag ef ac fe seiliwyd nofel Gymraeg arno. A phum mlynedd yn ôl cyfeiriwyd at ympryd Sarah Jacob mewn cyfrol a gyhoeddwyd yn yr Unol Daleithiau sydd yn olrhain cefndir cynnar y salwch cyfoes Anorexia Nervosa. Eleni, wedyn, fe sicrhaodd y Llyfrgell Genedlaethol becyn o ddogfennau yn ymwneud ag amddiffyniad Evan a Hannah Jacob. Nid ydynt yn taflu unrhyw oleuni newydd ar yr achos.

Pe bai ynadon Mânlys Llanfihangel-ar-Arth wedi ildio i ymdrech y Goron i orfodi'r meddygon i sefyll wrth ochr Evan a Hannah Jacob yn y prawf yn y Frawdlys mae'n bosib mai y nhw, ac nid y rhieni, a fyddai wedi cael eu carcharu am ddymladdiad. Wyddom ni ddim. Wyddom ni ddim chwaith a fyddid wedi mynnu, wedyn, bod y ddau a rhyddhawyd yn wynebu achos o dwyll, ac yn sicr wyddom ni ddim beth fyddai canlyniad yr achos hwnnw pe cynhelid o.

Ym marn Dr Fowler, a'i gwelodd yn Awst 1869, 'roedd Sarah Jacob yn twyllo ei rhieni; a dyna gredai Dr Hopkins fu'n ei gweld yn Ebrill 1867 hefyd. Hwyrach bod y ddau wedi cyrraedd calon y gwir ond rywsut mae'n anodd credu y medrai'r ferch sicrhau bwyd a diod iddi'i hun mewn ffermdy bach yn llawn o'i thylwyth, a gyda gwas yn byw i mewn am dros ddwy flynedd, heb gael ei dal gan rywun. Mae'n haws derbyn fod rhywun yn ei helpu, ond pwy yw'r cwestiwn mawr? Pe bai'r rhieni, y brodyr a'r chwiorydd, a'r gwas, wedi cael eu holi mae'n bosib y gellid fod wedi darganfod y gwir.

Os helpwyd hi gan chwaer, dyweder, oni wyddai'r fam faint o fwyd oedd yn y tŷ? Ac os helpwyd hi gan ei rhieni onid oedd y fam, a oedd wastad yn y tŷ, yn debycach o gael cyfle i wneud na'r tad a fyddai allan gyda'i waith drwy'r rhan fwyaf o'r dydd? Y cwestiwn mwyaf dyrys y mae'n debyg yw sut fedrai'r ddau, o wybod nad oedd yr eneth wedi bod yn ymprydio'n iawn, oddef y dirywiad yn ei chyflwr oherwydd atal ymborth yn ystod y gwyllo gan y nyrsus heb golli eu rheswm? Wrth ystyried hynny rhaid cofio mai am bobl yn byw yn agos i'r pridd yr ydys yn sôn ac nid am uchelwyr yn eu parlyrau na wyddent ddim am fagu plant nac anifeiliaid oherwydd iddynt gyflogi eraill i wneud y gwaith drostynt.

Y gwir amdani yw nad oes gennym oibaith datrys y dirgelwch. Hwyrach mai Dr D. H. Davies oedd yn iawn yn y diwedd, 'nad oedd dim yn amhosibl i *Greawdwr a Chynhalitwr dynolryw?*

THE

WELSH FASTING GIRL:

Being a complete history of the remarkable case of

SARAH JACOB.

As revealed by authentic sources of information.

Of absorbing General, Medical and Legal Interest.

LONDON: W. H. ROBERTS, 10 CECIL COURT.
PENCADER: D. JONES, PRINTER AND PUBLISHER.
1904

HUW WILLIAMS yn cymryd cipdrem ar weithgarwch JAMES IFANO JONES (1865-1955)

Cyfrolau yr wyf yn eu trysori, ac y byddaf hefyd yn ymgynghori â hwy'n aml yw *A History of Printing and Printers in Wales to 1810* (Caerdydd 1925) a *Cardiff Free Libraries: Catalogue of Printed Literature in the Welsh Department* (Caerdydd a Llundain 1898), gyda'r naill fel y llall yn tystio i weithgarwch anhygoel James Ifano Jones, er y ceir enw John Ballinger hefyd ar wynebdalen y *Catalogue*.

Yn frodor o Aberdâr, ychydig iawn o addysg ffurfiol a gafodd James Ifano Jones, a phan oedd yn ddeuddeg oed fe'i prentisiwyd am saith mlynedd yn argraffwasg *Tarian y Gweithiwr* yn Aberdâr, cyn symud fel cysodydd a darllenwr profienni at Jenkin Howell, un o gyhoeddwyd y Bedyddwyr, ac argraffydd *Y Gweithiwr Cymreig* yn Aberdâr, lle y treuliodd ddeuddeg mlynedd hapus.

Ym mis Tachwedd 1896, fe'i penodwyd ar staff Llyfrgell Caerdydd, gyda chyfrifoldeb am y llyfrau Cymraeg a'r llawysgrifau. Hwn oedd cyfnod euraid ei fywyd, a'r cyfnod a ddaeth ag ef i fri, nid yn unig fel llyfrgellydd ond hefyd fel llyfryddwr a llenor.

Un o gyfrifoldebau cyntaf James Ifano Jones yn ei swydd newydd yng Nghaerdydd oedd cynorthwyo John Ballinger (Llyfrgellydd Caerdydd a ddaeth yn ddiweddarach y Llyfrgellydd Cenedlaethol cyntaf) i ddiolli a dosbarthu'r casgliad llyfrau a llawysgrifau a gyflwynwyd i'r Llyfrgell gan y Mri Rees, y cyhoeddwyd o Lanymddyfri. A'r syndod mawr yw ei fod ef a'r Llyfrgellydd cydrhyngddynt wedi llwyddo ymhen dwy flynedd i gyhoeddi cyfrol enfawr yn cynnwys manylion am tua deuddeg mil o eitemau Cymreig yn y Llyfrgell — gwybodaeth sy'n parhau i gael ei hystyried o bwys ac o gymorth mawr i lyfrgellwyr y genedl heddiw.

Argraffwyd dwy fil a hanner o gopiau o'r *Catalogue*, pum cant ohonynt yn cael eu disgrifio fel copiau 'argraffiad llyfrgell'.

Cyfrol sydd heddiw lawn mor brin — onid yn brinnach — na'r *Catalogue* yw'r *History of Printing . . .*, a argraffwyd gan William Lewis, Caerdydd, a'i gyhoeddi gan yr awdur, yn rhannol gyda chymorth tanysgrifwyr, ac ar

(Parhad ar dudalen 8)

Rhwymwr Llyfrau

ac

Atgyweirio



Keith E.

houghton

Penarth Fawr, Chwilog
Pwllheli, Gwynedd LL53 6PR
Ffôn: (0766) 810880